Beibl i Blant

yn cyflwyno

Dafydd y Brenin (rhan 2)

Awdur: Edward Hughes
Lluniau gan: Lazarus
addaswyd gan: Ruth Klassen
Cyfieithydd: Catrin Roberts
Cynhyrchwyd gan: Bible for Children
www.M1914.org

BFC
PO Box 3
Winnipeg, MB R3C 2G1
Canada

©2016 Bible for Children, Inc.
Trwydded: mae gennych hawl i gopïo neu argraffu'r stori hon,
ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.

Roedd Dafydd yn frenin ar Jwda, yn Ne Israel. Ond penderfynodd gweddill Israel wneud Ish-boseth yn frenin arnyn nhw. Bu rhyfel cartref am saith mlynedd. Ond roedd Dafydd yn mynd o nerth i nerth.

Yn y diwedd
cafodd y Brenin
Ish-bosheth ei
ladd gan un o'i
filwyr ei hun.

Yna daeth llwythau Israel i gyd at Dafydd a'i eneinio'n frenin ar Israel gyfan. O'r diwedd roedd Dafydd yn frenin ar y genedl i gyd.



Y peth cyntaf wnaeth y Brenin Dafydd oedd cipio Jerwsalem. Daeth pobl i adnabod y ddinas fel Dinas Dafydd. Dyma fe'n ail-adeiladu a'i gwneud yn gaer i gadw'r gelyn allan. Byddai byddin Dafydd yn gadael Jerwsalem a mynd i goncro'r Philistiaid a gweddill gelynion Israel.





Yna, symudodd Dafydd Arch Duw i Jerwsalem. Yn yr arch roedd copïau o'r deg gorchymyn a'r rheolau eraill gafodd Moses gan Dduw. Roedd yr Arch yn atgoffa'r Israeliaid fod yn rhaid iddyn nhw ufuddhau i Dduw.



Bu'n rhaid i Dafydd ymladd llawer o frwydrau ar ddechrau ei gyfnod fel brenin. Roedd yn frenin doeth, ac yn ddyn gwylaidd oedd yn gofyn am arweiniad Duw mewn gweddi.



Roedd y ffaith ei fod e'n byw mewn cartref braf tra bod Arch Duw mewn pabell yn poeni Dafydd. Penderfynodd ei fod am adeiladu teml. Dywedodd Nathan, proffwyd Duw, wrtho am fwrw ati.

Y noson honno, cafodd Dafydd neges gan Dduw: "Dafydd, fy ngwas, fi, yr ARGLWYDD, sy'n mynd i adeiladu tŷ i ti. Ar ôl i ti farw a chael dy gladdu, bydda i'n codi un o dy linach yn dy le. Bydd e'n adeiladu teml i'm anrhydeddu i; a byddai'n gwneud yn siŵr y bydd e'n teyrnasu am byth."

Roedd Dafydd am helpu unrhyw un oedd yn dal ar ôl o deulu Saul. Yr unig un yn dal yn fyw oedd mab Jonathan, Meffibosheth ac roedd e'n anabl. "Bydd e'n bwyta wrth fy mwrdd i yn rheolaidd," meddai Dafydd. Dangosodd Dafydd garedigrwydd i Meffibosheth achos ei fod e'n gymaint o ffrindiau gyda Jonathan.




Tra roedd Dafydd yn trystio Duw ac yn gwrando arno, roedd Duw yn ei helpu i lwyddo. Ond un diwrnod, daeth cwmwl du mawr i fywyd Dafydd. Anfonodd ei filwyr i ymladd, ond arhosodd e yn Jerwsalem.

Un noson roedd Dafydd yn methu cysgu. Felly dyma fe'n cerdded ar do fflat y palas ac edrych dros y ddinas.

Gwelodd Dafydd wraig brydferth yn ymolchi. Ei henw oedd Bathseba. Dechreuodd Dafydd garu gyda hi, er bod Wreia, ei gŵr, yn un o'i filwyr dewr. Pan ddywedodd Bathseba wrtho yn nes ymlaen ei bod hi'n mynd i gael babi, sylweddolodd Dafydd fod ei bechod yn creu mwy o broblemau.



Yn lle dweud y cyfan wrth Dduw, ceisiodd Dafydd guddio'r gwir. Dyw hynny byth yn gweithio! Anfonodd neges yn dweud wrth Wreia am ddod adref o'r gwersyll, gan obeithio y byddai Wreia yn credu bod y babi yn perthyn iddo fe. Ond gwrthododd Wreia gysgu gyda'i wraig tra roedd ei gyd-filwyr yn cysgu mewn pebyll. Cysgodd Wreia wrth ddrws y brenin.

Felly gwnaeth Dafydd rywbeth gwaeth fyth! Anfonodd Wreia yn ôl i'r ymladd gyda llythyr. Roedd y llythyr yn dweud wrth y Prif Swyddog am wneud yn siŵr y byddai Wreia yn cael ei ladd yn y frwydr. Ar ôl i hyn ddigwydd, priododd Dafydd a Bathseba.



Anfonodd Duw ei was Nathan i ddangos i Dafydd ei fod e wedi gwneud peth drwg iawn. Dywedodd Nathan stori am ddyn cyfoethog a dyn tlawd iawn.

Roedd gan y dyn cyfoethog gannoedd o ddefaid. Dim ond un oen bach oedd gan y dyn tlawd, ac roedd e'n trin yr oen fel plentyn bach.

Pan gafodd y dyn cyfoethog ymwelwyr, wnaeth e ddim lladd un o'i ddefaid ei hun er mwyn gwneud pryd bwyd. Na, fe wnaeth e ladd oen y dyn tlawd.

Roedd Dafydd wedi gwylltio'n lân pan glywodd am hunanoldeb y dyn cyfoethog. Dywedodd, "Mae'r dyn yn haeddu marw!"

"Ti ydy'r dyn!" dywedodd Nathan yn ddewr wrth Dafydd. Roedd Dafydd wedi gwneud rhywbeth llawer gwaeth na'r dyn cyfoethog yn y stori.

Dangosodd Duw i Dafydd pa mor ddrwg oedd e. Roedd Dafydd yn sori am ei bechod. Dywedodd wrth Dduw, "Dw i wedi pechu yn dy erbyn di, ARGLWYDD." Fe wnaeth Duw faddau iddo. Ond pan gafodd babi Bathseba ei eni, roedd yn wael iawn. Cyn hir roedd y plentyn wedi marw.





Fe wnaeth Duw faddau i Dafydd am ei bechod. Cafodd Bathseba blentyn arall, Solomon. Byddai Solomon yn frenin mawr ar ôl i Dafydd farw. Ond cafodd Dafydd lawer iawn o blant eraill, ac fe wnaeth rhai ohonyn nhw achosi tristwch mawr i Dafydd.

Dafydd y Brenin (rhan 2)

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

2 Samuel 1-12

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130


Y Diwedd

Mae'r stori hon o'r Beibl yn dysgu ni am ein Duw rhyfeddol. Fe wnaeth ein creu ni, ac mae eisiau i ni ei adnabod.

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Cosb pechod ydy marwolaeth, ond mae Duw yn dy garu di gymaint nes ei fod wedi anfon ei unig Fab, Iesu, i farw ar Groes, a chymryd y gosb am dy bechod di. Yna daeth Iesu'n ôl yn fyw a mynd adref i'r Nefoedd! Os wyt ti'n credu yn Iesu ac yn gofyn iddo faddau dy bechodau, mae'n barod i wneud hynny! Bydd yn dod i fyw ynot ti nawr, ac fe gei di fyw gydag E am byth.

Os wyt ti'n credu bod hyn yn wir, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Iesu, rwy'n credu i ti ddod yn ddyn i farw dros fy mhechodau, a dy fod ti'n fyw eto. Os gweli'n dda, tyrd i mewn i'm bywyd. Maddau fy mhechodau i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna un diwrnod bod hefo ti am byth. Helpa fi i fod yn ufudd i ti, a byw fel plentyn i ti. Amen.

Darllena'r Beibl, a siarad gyda Duw bob diwrnod! Ioan 3:16